



Y CAM PROBLEMAU

NODIADAU I ATHRAWON

Amcanion Dysgu:

- Deall Earthshot o safbwynt byd-eang
- Cysylltu â'r Earthshot o safbwynt lleol
- Ar gyfer y cam syniadau, llunio Esboniad o Broblem y mae myfyrwyr yn ei deall ac sy'n bwysig iddyn nhw.

Yn y cam hwn, byddwch yn cyflwyno un o'r 5 Earthshot, yn gofyn i'r disgyblion beth maen nhw'n ei wybod am yr Earthshot hwnnw, ac yna'n meddwl am broblem leol y gallan nhw fynd ati gyda'i gilydd i'w datrys gyda'u syniadau. Mae 3 cham i'w dilyn.

Cam 1. Dewis eich Earthshot

Gofynnwch i'ch dosbarth ddewis Earthshot i ganolbwyntio arno neu dewiswch un eich hun sy'n gysylltiedig â maes sydd o ddiddordeb i'r myfyrwyr. Bydd hyn yn rhoi darlun mawr o'r Earthshot yn ei gyfanrwydd.

Dechreuwch drwy chwarae'r fideo ar gyfer yr Earthshot hwnnw. Gallwch ddod o hyd iddyn nhw ar www.youtube.com/channel/UCBKGuPLVff4r4-moTh9L7iw. Cliciwch ar "CC" i ddewis yr isdeitlau perthnasol.

Gwylwch y fideo heb y sain yn gyntaf. Gofynnwch i'r myfyrwyr:

Am beth allai'r ffilm yma fod yn eich barn chi? Beth yw'r her gyffredinol? Beth yw'r problemau penodol sy'n rhan ohoni?

Nawr gwylwch y fideo eto a gofyn i'r disgyblion wneud nodyn bob tro maen nhw'n gweld problem. Fe allen nhw eu cyrif neu eu hysgrifennu ar nodiadau gludiog. Mae yna lawer o broblemau, felly fyddan nhw ddim yn gallu sylwi arnyn nhw i gyd! Rhestrwch nhw i gyd gyda'ch gilydd wedyn ac os oes angen help arnoch, gallwch ddod o hyd i restr o broblemau sy'n gysylltiedig â'r Earthshots isod.

Gofynnwch i'r myfyrwyr sut oedden nhw'n teimlo wrth wyllo'r fideo. Byddwch yn glir gyda nhw nad oes neb yn gallu datrys yr heriau hyn ar ei ben ei hun a chyflwyno'r syniad y bydd rhannu'r her yn ddarnau llai gyda'i gilydd yn ei gwneud yn fwy ymarferol.



Cam 2. Rhannu'r broblem yn ddarnau llai

Gan edrych ar y problemau sydd wedi'u rhestru yn y fideo, gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis un maen nhw'n teimlo eu bod yn ei deall yn dda neu'n teimlo'n gryf yn ei chylch.

Esboniwch i'r myfyrwyr eich bod yn mynd i feddwl am effeithiau'r broblem honno a phan fyddwn yn gwneud hynny, bod rhannu'r broblem yn ddarnau llai yn ein helpu ni.

Er enghraifft: os ydyn ni'n meddwl am y ffaith bod bron i ddwy ran o dair o boblogaeth y byd yn anadlu aer llygredig (ffynhonnell: iQair, 2020) gall deimlo'n llethol. Ond, os ydyn ni'n ystyried effaith traffig yn ein cymuned leol, mae'n teimlo bod modd ei reoli oherwydd rydyn ni'n gyfarwydd â'r lleoliad, yn gwybod pwy mae hyn yn effeithio arnyn nhw, ac yn gallu dychmygu sut mae'n edrych.

Dechreuwch â phroblemau byd-eang:

- *Beth allai effeithiau'r broblem hon fod ar y byd? Sut gallai hyn effeithio ar bobl a chymunedau ledled y byd? Allwch chi gofio unrhyw enghreifftiau o'r fideo? Beth sy'n achosi'r broblem hon yn eich barn chi?*

Yna meddyliwch am broblemau lleol yn eich cymuned:

- *A yw'r broblem hon yn effeithio ar ein cymuned ni? A yw'n gysylltiedig â phroblem fyd-eang? Allwn ni weld y broblem hon lle rydyn ni'n byw? Sut mae'n edrych? Sut mae'n effeithio ar ein bywydau? Sut mae'n gwneud i ni deimlo? A oes problemau yn ein cymuned nad ydynt yn y fideo? Ydyn nhw'n gysylltiedig â'r broblem hon?*

Ysgrifennwch yr holl enghreifftiau hyn lle gall pawb eu gweld – mewn rhestr, ar fap meddwl mawr neu ar nodiadau gludiog. Rydych chi nawr wedi rhannu'r her Earthshot yn nifer o broblemau llai.

Gallwch nawr symud ymlaen i'r cam nesaf, neu os oes gennych chi fwy o amser, gallech drafod rhai o'r problemau eraill a nodwyd yng Ngham 1. Gallech hefyd ymchwilio i'r problemau penodol, i gael gwybod mwy am effeithiau byd-eang a lleol y problemau hynny. Bydd hyn yn rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi ar gyfer **Y Cam Syniadau**.



Cam 3. Y broblem i'w datrys

Nawr mae'n amser dewis un broblem i'w symud ymlaen i'r **Cam Syniadau**.

Dylai fod yn rhywbeth y mae myfyrwyr yn ei ddeall ac yn teimlo'n angerddol yn ei gylch, er mwyn iddynt allu meddwl am syniadau gwych. Efallai y byddwch yn dymuno dewis un o'r problemau sy'n effeithio ar eich ysgol neu'ch cymuned, oherwydd bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio profiad personol i ddod o hyd i ddatrysiadau na all neb arall feddwl amdany'n nhw. Neu fe allen nhw bleidleisio fel dosbarth a dewis yr un fwyaf poblogaidd.

Yna gofynnwch i'ch myfyrwyr helpu i ysgrifennu eich **Esboniad o'r Broblem** drwy ateb y cwestiynau ar y daflen waith Esboniad o'r Broblem. Gofynnwch iddyn nhw ganolbwyntio ar wneud pethau mor glir â phosib drwy ddefnyddio atebion un frawddeg. Gellir gwneud hyn gyda'ch gilydd fel dosbarth neu'n unigol.

Beth yw'r broblem?

Ble mae'r broblem yn digwydd?

Ar **bwyl** mae'n effeithio?

Pam mae'n bwysig datrys y broblem hon?

Os yw pawb wedi cwblhau Esboniad o'r Broblem, dewiswch un neu greu un sy'n dod â syniadau pawb at ei gilydd yn glir.

Dangoswch yr Esboniad o'r Broblem i bawb ei weld. Nesaf, rydych chi'n mynd i ddatrys y broblem hon yn **Y Cam Syniadau**.



ESBONIAD O'R BROBLEM

BETH

Beth yw'r broblem?

BLE

Ble mae'r broblem yn digwydd?

PWY?

Ar bwy mae'n effeithio?

PAM

Pam mae'n bwysig datrys y broblem hon?



ESBONIAD O'R BROBLEM

BETH

Beth yw'r broblem?

Mae traffig yn ein cymdogaeth yn creu llawer o lygredd aer.

BLE

Ble mae'r broblem yn digwydd?

Ar y priffyrdd o amgylch ein hysgol.

PWY?

Ar bwy mae'n effeithio?

Pawb sy'n anadlu'r aer llygredig, gan gynnwys plant ysgol, pobl sy'n byw gerllaw ac anifeiliaid.

PAM

Pam mae'n bwysig datrys y broblem hon?

Mae pobl yn anadlu aer llygredig, a allai achosi iddynt gael problemau iechyd a disgwyliad oes byrrach. Mae'r llygredd yn rhyddhau mwy o garbon deuocsid i'r atmosffer, sy'n niweidio ein hinsawdd.



Y 5 Earthshot | Problemau a chyfleoedd

Rhestr o'r problemau a'r chyfleoedd a nodwyd yn y 5 fideo Earthshot. Gall y rhain helpu i arwain eich trafodaeth gyda myfyrwyr.

Adfywio Ein Moroedd

- Llygredd e.e. carthion, cemegau a phlastig
- Dŵr cynhesach
- Asid yn cynyddu oherwydd allyriadau carbon
- Gorbysgota a niweidio bywyd y môr
- Gwynnu cwrelau
- Yr ecosystem yn methu
- Gwarchod cynefinoedd er mwyn i fywyd allu adfer yn naturiol
- Ei gwneud yn hawdd i bobl fwyta'n gyfrifol
- Dileu llygredd

Diogelu ac Adfer Byd Natur

- Tanau coedwigoedd
- Potsio anifeiliaid
- Dinistrio cynefinoedd
- Datgoedwigo
- Dinistrio llynnoedd ac afonydd
- Bwyd cynaliadwy
- Caniatáu i natur adfywio
- Plannu coed
- Gwarchod cynefinoedd er mwyn i fywyd allu adfer yn naturiol
- Ffermio trefol



Glanhau'r Aer

- Llygredd diwydiannol
- Llygredd trafndiaeth (e.e. ceir, awyrennau a meysydd awyr, llongau a phorthladdoedd)
- Tanwyddau ffosil
- Llosgi gwastraff cartrefi
- Llosgi coed, glo a diesel ar gyfer tanwydd, pŵer a gwresogi
- Pŵer a gwresogi
- Mae aer gwenwynig yn lledaenu clefydau ac afiechydon resbiradol ac yn achosi marwolaeth
- Ynni fforddiadwy, adnewyddadwy
- Dewis trafndiaeth werdd e.e. cerdded a beicio, trafndiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan yn lle rhai sy'n defnyddio petrol, nwy neu danwydd diesel
- Nwyddau lleol

Trwsio ein Hinsawdd

- Ecosystem y Ddaear yn anghytwys
- Trobwyntiau
- Tywydd eithafol
- Rhew yn toddi a lefelau'r môr yn codi
- Effaith ddynol ac economaidd
- Lleihau carbon i gyrraedd sero net
- Pŵer pobl ifanc a chydweithio
- Cael gwared ar nwyon tŷ gwyrdr
- Swyddi gwyrdd
- Datrysiadau seiliedig ar natur a thechnoleg

Datblygu Byd Di-wastraff

- Cynnyrch heb fawr o werth cynhenid ac sydd â gwastraff dros ben
- Adnoddau cyfyngedig a fydd yn dod i ben
- Cynnyrch untro a phlastig
- Gwastraffu dŵr
- Llygredd e.e. carthion, cemegau a phlastig
- Gwastraffu dŵr
- Gwastraff organig a gwastraff bwyd
- Gwastraff tecstilau
- Economi gylchol
- Deunyddiau adnewyddadwy
- Aildefnyddio, ail-bwrpasu ac yna ailgylchu